# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 20 Tachwedd 2023

Amser: 13.31 - 15.34

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13550

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Huw Irranca-Davies AS (Cadeirydd)<br>Alun Davies AS<br>Peter Fox AS (yn lle James Evans AS)<br>Adam Price AS |
| Tystion: | Mick Antoniw AS, Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad<br>Michael Kay, Llywodraeth Cymru<br>Gareth McMahon, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Gerallt Roberts (Ail Glerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Kate Rabaiotti (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cafwyd ymddiheuriadau gan James Evans. Croesawodd y Pwyllgor Peter Fox, a oedd yn dirprwyo ar ei ran.

## 2 Y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru): Sesiwn dystiolaeth

Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

## 3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

### 3.1 SL(6)403 – Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Penodi) (Diwygio, Darpariaeth Drosiannol a Dirymu) 2023

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

### 3.2 SL(6)411 – Rheoliadau'r Gofrestr o Ddarparwyr Gwasanaethau (Gwybodaeth Ragnodedig a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2023

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

### 4.1 SL(6)402 – Rheoliadau Deddf Ardrethu Annomestig 2023 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2023

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru (rhoddwyd copi caled ohono i Aelodau) a chytunwyd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 4.2 SL(6)404 – Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Sancsiynau Sifil) (Cymru) 2023

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 4.3 SL(6)405 – Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 4.4 SL(6)406 – Rheoliadau Gwahardd Llosgi Gwastraff Penodedig, neu ei Ddodi ar Safle Tirlenwi (Cymru) 2023

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 4.5 SL(6)407 – Gorchymyn Gwahardd Gwaredu Gwastraff Bwyd i Garthffos (Sancsiynau Sifil) (Cymru) 2023

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 4.6 SL(6)408 – Rheoliadau Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2023

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 4.7 SL(6)409 – Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd Amrywiol) (Cymru) (Diwygio) 2023.

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru (rhoddwyd copi caled ohono i Aelodau) a chytunwyd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 4.8 SL(6)410 – Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig) (Cymru) 2023

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

## 5 Offerynnau sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd eisoes

### 5.1 SL(6)393 – Rheoliadau Coedwigaeth (Cwympo Coed) (Diwygio) (Cymru) 2023

Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## 6 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

### 6.1 Gohebiaeth gan Weinidog yr Economi: y Grŵp Rhyngweinidogol ar Fasnach

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan

Weinidog yr Economi.

### 6.2 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Rhestrau Sefydliadau) (Dirymu) 2023

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd.

## 7 Papurau i'w nodi

### 7.1 Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip: Ymchwil i baratoi ar gyfer datganoli plismona yng Nghymru

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip.

### 7.2 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 9 Y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru): Trafod y dystiolaeth

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddarparwyd gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, a chytunwyd i ysgrifennu at y Cwnsler Cyffredinol gyda chwestiynau atodol.

## 10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Gweithgarwch Economaidd Cyrff Cyhoeddus (Materion Tramor)

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft diwygiedig a chytunodd arno.

## 11 Egwyddorion drafft ar gyfer deddfu drwy Filiau'r DU

Trafododd y Pwyllgor ei egwyddorion drafft a chytunodd i drafod y mater ymhellach yn ei gyfarfod nesaf.